COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB / O BELL DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD LLUN, 17 MAWRTH 2025 AM 10 O'R GLOCH

Presennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd y Cyfarfod

GH Haines

Yn bresennol yn rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| HJ David | M L Hughes | RL Penhale-Thomas | T Thomas |
| AJ Williams | E D Winstanley | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

F D Bletsoe, RM Granville, S J Griffiths ac A Ulberini-Williams

Y Cynghorydd Jane Gebbie, Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles, Y Cynghorydd Paul Davies, Aelod o'r Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd, Y Cynghorydd Eugene Caparros, Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) a Kelly Watson, Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol AD a Pholisi Corfforaethol.

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Yr Arweinydd |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad |
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod o'r Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod o'r Cabinet dros Adfywiad, Datblygu Economaidd a Thai |
| Y Cynghorydd Melanie Evans | Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| | |
| Mark Shepherd | Y Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |

| | |
|---|---|
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Cymunedau |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol |
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaethau Partneriaeth |
| Paul Miles | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cyng Amanda Williams – eitem 4 – personol – fel Cynghorydd Cymunedol dros Gyngor Cymuned Coety Uchaf sy'n ceisio trosglwyddo eiddo sy'n ased oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr.
Y Cyng Elaine Winstanley – eitemau 4 a 5 – personol – fel llywodraethwr mewn dwy ysgol a grybwyllwyd yn y broses moderneiddio ysgolion, roedd yn cymryd rhan mewn cynnal gweithgareddau 'Bwyd a Hwyl' fel y soniwyd yn yr adroddiad ac fel un yn cael ei chyflogi gan ymddiriedolaeth ddiwylliannol AWEN sy'n rheoli Pafiliwn y Grand a'r gwasanaeth llyfrgell a grybwyllwyd yn yr adroddiad.
Y Cyng Tim Thomas – eitem 6 - personol – yn ymwneud â Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ynghylch Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

**148. Cymeradwyo'r Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 15 a 28 Ionawr 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Mawrth 2025 |

## 149. Perfformiad Chwarter 3 2024/25

<table>
<tr>
<td>Y Penderfyniad Wnaed</td>
<td>
PENDERFYNWYD:<br><br>
Yn dilyn ystyried yr adroddiad a’i drafod yn fanwl gydag Aelodau’r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a’r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol a ganlyn:<br><br>
Argymhellion<br><br>
1. Bu’r aelodau’n trafod salwch staff a'r cymorth a gynigir, a bod rhai Cyrff Llywodraethol yn cynnig mynediad ar-lein at Feddyg Teulu ar gyfer presgripsiynau preifat fel rhan o’u pecyn cymorth lles i’r staff. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid edrych i mewn i’r dewis hwn o ddarpariaeth ar gyfer staff y Cyngor a chysylltu â chydweithwyr mewn ysgolion lle cafodd y cynnig ei wneud i gael manylion.<br><br>
2. Cyfeiriodd yr Aelodau at y broblem o beidio â chael mynediad at ddogfennau sydd ar gael ar fewnrwyd y staff, megis Cynlluniau Busnes y Cyfarwyddiaethau, ac argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyflymu’r posibilrwydd o integreiddio dolen at y wybodaeth ar Borth yr Aelodau tra’n disgwyl am brawf tymor hwy o’r model gwaith sylfaenol a fyddai’n caniatáu mynediad drwy’r fewnrwyd.<br><br>
Gwybodaeth Ychwanegol<br><br>
3. Cydnabu'r Pwyllgor fod y targed o 100% ar gyfer staff sy'n cwblhau e-ddysgu gorfodol yn afrealistig am nifer o resymau a nododd fod adolygiad ar y gweill i geisio creu dull mwy deallus/blaenoriaethol o ymdrin ag e-ddysgu gorfodol. Fodd bynnag, gofynnodd y Pwyllgor am ddata yn dangos y ffactorau oedd yn cyfrannu at atal y targed o 100% rhag cael ei gyrraedd.<br>
At hynny, gofynnodd y Pwyllgor i'r naratif yn y Dangosfwrdd Perfformiad adlewyrchu’r ffaith nad yw'r ffigwr yn cynnwys absenoldeb staff oherwydd salwch, absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth ac yn y blaen tra'n disgwyl am newid posibl i'r targed yn dilyn yr adolygiad sydd yn mynd yn ei flaen.<br><br>
4. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ynghylch statws y cais cynllunio mewn perthynas â moderneiddio ysgolion Ysgol Y Ferch O’r Sger.<br><br>
5. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch y weithdrefn i asesu Tystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer adeiladau'r sector cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol a'u mesuriadau ynni.
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | 6. Cyfeiriodd yr Aelodau at ddatblygiad Model Gwasanaethau Gwastraff y Dyfodol drwy dynnu'r gwasanaeth i mewn, a **gofynnwyd** am i wybodaeth / diweddariadau rheolaidd gael eu darparu ar gyfer yr Aelodau i sicrhau bod yr Aelodau'n cael gwybod am y cynnydd a'u galluogi i reoli disgwyliadau trigolion.<br><br>7. Gan gyfeirio at Ddangosydd Perfformiad: CED5, 'Canran y datrysiadau ar yr alwad gyntaf', i ymholiadau nad oeddent yn arwain at ddatrysiad ar yr alwad gyntaf, **gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth am ba hyd yr oeddent yn parhau yn y system a faint o alwadau yr oeddent yn eu cymryd i gael eu datrys.<br><br>8. Gan gyfeirio at Ddangosydd Perfformiad (DP): DRW6.1.1, 'Canran y gostyngiadau cyffredinol yng nghyllideb CBSP a gyflawnwyd', mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch p'un a oedd y targed blynyddol o £13,045 miliwn ac amrywiad o £1.441 miliwn yn cynnwys yr arbediad effeithlonrwydd o 3% yn erbyn Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion (£3.441 miliwn) a balansau diffyg ysgolion o £4.989 miliwn.<br>**Gofynnodd** y Pwyllgor am ddadansoddiad cryno ysgrifenedig o'r ffigurau i gynnwys arddangosiad o'r hyn a ragwelwyd, yr hyn sydd wedi'i gynnwys a beth oedd y diffyg gafodd ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn hon. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Mawrth 2025 |

**150. Adolygiad o'r Cynllun Corfforaethol am 2025/26**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag Aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**<u>Argymhelliad</u>**<br><br>1. **Argymhellodd** y Pwyllgor ailystyried y bwriad i gyfuno'r nodau a'r dangosyddion perfformiad canlynol gan gydnabod eu bod ill dau yn feysydd mawr a gwahanol ac, fel y cyfryw, y dylent aros |

| | |
|---|---|
| | ar wahân yn unol â'r Amcanion Llesiant presennol:<br>a. Amcan Llesiant 1 – Nod: 'Adfywio canol ein trefi a'n Cymoedd'<br>b. Amcan Llesiant 4 – DP: 'Atal digartrefedd' a 'Dyddiau i Sicrhau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl'. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Mawrth 2025 |

151. **Diweddariad a Datganiad o'r Sefyllfa ynghylch y Gwasanaeth Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a'r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol a ganlyn:<br><br>**Argymhelliad**<br><br>2. Cyfeiriodd y Pwyllgor at y sylw gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mai'r "unig ffordd y gellid creu mwy o swyddi oedd gyda chyfalaf ychwanegol" a bod rhagfynegiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch y ddemograffeg a'r boblogaeth sy'n heneiddio yn dangos mai dim ond cynyddu yr oedd y galw am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) yn debygol o wneud.<br><br>Felly, **Argymhellodd** y Pwyllgor, y dylid plymio'n ddwfn i bwnc GCA a'r ystyriaethau uchod. yn ystod trafodaethau cynnar y Pwyllgor ynghylch y gyllideb<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br><br>3. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddadansoddiad o GCA fesul achosion oedolion a phlant a **gofynnodd** i adroddiadau yn y dyfodol ynghylch GCA hefyd nodi'r ffigurau yn y modd hwn.<br><br>4. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddadansoddiad o GCA yn ôl deiliadaeth tai gan gydnabod sylwadau Swyddogion mai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am eu haddasiadau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Mawrth 2025 |

## 152. Adolygiad Craffu

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a'r cais a ganlyn:<br><br>5. O'r dewisiadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad, roedd y Pwyllgor yn unfrydol o blaid ac yn **argymell** dewis 2; cadw 4 Pwyllgor Craffu gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a thri Phwyllgor â thema ffurfiol: 'Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymunedau' neu debyg. Roedd hyn ar yr amod bod y cafeatau yn yr adroddiad yn cael eu cynnwys yn yr ystyr na fyddai enwau a chylchoedd gorchwyl y Pwyllgorau yn atal un Pwyllgor rhag craffu ar eitem yn ei chyfanrwydd pe bai unrhyw agwedd yn crwydro ychydig i gylch gorchwyl un arall.<br><br>6. Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod materion megis hyd cyfarfodydd ac agendâu, ymgysylltiad Aelodau, nifer y cyfarfodydd, adnoddau a llwyth gwaith a nifer y Cadeiryddion, ond cytunwyd y byddai angen trafod y materion hyn ymhellach yng nghyfarfodydd y Cyngor ac yng nghyfarfodydd Grwpiau Gwleidyddol perthnasol. **Gofynnodd** yr Aelodau i Gadeiryddion ac Arweinwyr Grwpiau rannu'r Dewisiadau o Strwythur Pwyllgorau a'r Protocol Craffu gyda holl Aelodau'r Grwpiau Gwleidyddol, yn ogystal â'r 3 Aelod Annibynnol nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw Grŵp, cyn gynted â phosibl cyn cyfarfod y Cyngor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Mawrth 2025 |

## 153. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad, cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Gwaith (FWP) yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod, nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc yn Atodiadau C, D ac E, nododd y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B a chydnabu'r adroddiadau Rheoleiddio yr adroddwyd amdanynt yn ddiweddar wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: |

| | |
|---|---|
| | Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC)<br><br>1. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i'r adroddiadau a ganlyn gael eu hychwanegu at eu Blaenraglen Waith:<br><br>a. Arolwg Staff (gan gynnwys ymatebion, canlyniad grwpiau ffocws staff ac arolygon staff yn y dyfodol); a<br>b. Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2025-26.<br><br>2. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr atgyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a **gofynnodd** am ragor o wybodaeth ynghylch Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru cyn ystyried a ddylid ychwanegu'r pwnc at Flaenraglen Gwaith Craffu. Unwaith y byddai'r wybodaeth uchod wedi cael ei chasglu, cytunodd y Pwyllgor y câi'r amserlen arfaethedig ar gyfer yr Eitem ei thrafod rhwng Cadeiryddion Craffu a Swyddogion Craffu.<br><br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 1 (SOSC 1)<br><br>3. Mynegodd y Pwyllgor bryder na chyrhaeddwyd targed y DP o 100% yn ymwneud â chyflwyno cynlluniau datblygu unigol (CDU) gan ddefnyddio'r system CDU ar-lein (0%) a **gofynnodd** i SOSC 1 ystyried gofyn am adroddiad i fonitro'r sefyllfa.<br><br>4. Edrychodd y Pwyllgor i mewn i'r cysylltiad posibl rhwng ymddygiad disgyblion a gwaharddiadau parhaol, a chymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhestrau aros am ddarpariaeth arbenigol.<br><br>Felly, **gofynnodd** y Pwyllgor i gwmpas yr adroddiad ynghylch Ymddygiad Disgyblion a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer SOSC 1 ar 8 Mai 2025 gynnwys crynodeb o'r cynllun 5 mlynedd drafft a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r galw ar wasanaethau cymorth, darpariaeth arbenigol ac ysgolion.<br><br>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 3 (SOSC 3)<br><br>5. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i adroddiad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin gael ei amserlennu ar y flaenraglen waith ar gyfer SOSC 3 cyn gynted â phosibl. |

| | |
|---|---|
| | 6. Cyfeiriodd y Pwyllgor at yr argymhelliad a wnaed ganddynt ar 16 Rhagfyr 2024 bod SOSC 3 yn ystyried gofyn am adroddiad ynghylch ymateb y Cyngor i dywydd garw/stormydd. **Gofynnodd** y Pwyllgor i gwmpas yr adroddiad hwnnw gynnwys manylion am y wybodaeth a rannwyd yn ystod sesiynau gwybodaeth mewnol a Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a gynhaliwyd yn dilyn Storm Darragh ac unrhyw ddigwyddiadau tywydd garw eraill. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Mawrth 2025 |

## 154. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Mawrth 2025 |

I wylio dadl bellach a gymerodd le ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 14:29.